YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2024 – Y Traeth   Miss James

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am eu hunain ac i ystyried 'Beth sy'n gwneud fi yn fi?' Wrth ddechrau sylwi ar debygrwydd a gwahaniaethau e.e., golwg, hoffterau, gobeithiwn feithrin dealltwriaeth bod pawb yn wahanol ac yn arbennig, ac i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol sydd wedi'u seilio ar barch at ei gilydd. Anelwn at ddatblygu dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol am eu hunain, adnabod a siarad am newidiadau yn eu gorffennol a dod i ddeall dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob dydd. Ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig, ymholgar, sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy.

## Bant â ni i gynllunio!




Mae gen i wallt brown ond mae gan fy ffrind lliw gwallt gwahanol.

Reuben L

Rydyn ni'n mynd at y deintydd i wirio'ch dannedd.

Delyth

Bwyta ffrwyth.

Tomi

Rydych yn rhoi babis yn y crud.

Mabel

Pan mae'n fy mhen-blwydd rwy'n bwyta cacen, yn chwarae gyda fy nheganau ac yn mynd yn fwy.

Harriet

Rydw i eisiau creu cacennau pen-blwydd.

Lani

Os ydych chi'n bwyta bwyd iach gallwch chi fod yn fawr ac yn gryf.

Finn

Rydych chi'n gallu edrych ar bobl gyda'ch llygaid.

Catrin

Mae dwylo yn bwysig achos rydych yn gallu dal pethau gyda nhw.

Gwyneth

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2024 – Y Traeth   Miss James

Uned ddysgu y tymor hwn:

**Dyma fi!**

Dyma ein syniadau.



**Iechyd a Lles**
- Dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein cyrff e.e. hylendid personol, ymarfer corff
- Dangos chwilfrydedd
- Mynegi a gwneud penderfyniadau
- Dangos gofal a pharch at eraill.
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
- Edrych ar bortreadau enwog o arlunwyr Cymru e.e. portreadau Cedric Morris
- Ymarfer sgiliau arlunio/peintio wrth greu hunan-bortreadau
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Defnyddio adnoddau creadigol yn ddiogel
- Defnyddio ein synhwyrau i ymateb yn greadigol i gerddoriaeth
- Archwilio rhythm gyda'n cyrff
- Printio gyda rhannau'r corff

**Y Dyniaethau**
- Siarad am ein hoff bethau/cas bethau
- Meddwl am bwy yw'r bobl pwysig yn ein bywydau e.e. teulu
- Siarad am y lleoedd sy'n bwysig i ni
- Adnabod digwyddiadau pwysig sydd wedi digwydd yn y gorffennol e.e. pen-blwyddi
- Trefnu digwyddiadau personol a dechrau deall cysyniad o'r dyfodol e.e. meddwl am beth hoffen ni wneud pan fyddwn yn fawr
- Dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddon ni
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Chware rôl yng 'ngegin' y dosbarth
- Creu cornel chwarae rôl 'Meddygfa Bryn-y-Môr'
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r uned ddysgu
- Dysgu geirfa, a chaneuon am y corff
- Gweithgareddau cyn darllen / ysgrifennu, e.e. clywed seiniau, dysgu am rhythm and odl ac ymarfer symudiadau corff cyfan yn barod i ysgrifennu
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Deall bod gwahanol ddulliau o ysgrifennu e.e. disgrifiadau a rhestrau.

**Mathemateg a Rhifedd**
- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am sut mae ein cyrff yn newid wrth i ni dyfu
- Cynnal ymchwiliadau i sut mae'r corff yn gweithio e.e. y synhwyrau
- Dechrau defnyddio ystod o offer cyfrifiadol yn ddiogel
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Dylunio a chreu addurn Nadolig